NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon · The Teachers' Union

health&safety at work

# RHOI GWYBOD AM DDAMWEINIAU – RHESTR WIRIO

Ym mhob gweithle, mae'n hanfodol rhoi gwybod am ddamweiniau i sicrhau bod peryglon a phroblemau eraill yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac y cymerir camau adferol lle bo'n bosibl i ymdrin â'r peryglon.

O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, mae'n ofyniad cyfreithiol i gofnodi a monitro pob damwain, oherwydd mae'n rhaid i gyflogwyr wneud beth bynnag sy'n rhesymol ymarferol i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles eu cyflogeion a phobl eraill. Mae hefyd yn arfer da i fonitro sefyllfaoedd lle osgowyd damwain o drwch blewyn.

Yn ogystal â hynny, o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013, sef RIDDOR i ddefnyddio eu hacronym Saesneg cyffredin, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) am unrhyw ddamweiniau difrifol. Mae hyn yn cynnwys damweiniau sy'n arwain at farwolaeth, torri esgyrn (heblaw bysedd, bodiau a bodiau traed), llosgiadau difrifol, ac unrhyw ddamweiniau sydd angen triniaeth ysbyty sy'n para'n hirach na 24 awr. Yn ogystal, mae'n rhaid rhoi gwybod i HSE am unrhyw ddamweiniau sy'n arwain at absenoldeb am fwy na saith diwrnod yn olynol.

Rhaid rhoi gwybod hefyd am anaf i ddisgybl sydd angen triniaeth ysbyty ar unwaith.

Lluniwyd y rhestr wirio hon i helpu Cynrychiolwyr NASUWT i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau'r cyflogwr yn addas i'w pwrpas.

Dylai'r system o roi gwybod am ddamweiniau:

- ☐ fod yn system electronig neu ar bapur sy'n syml ac yn eglur;
- ☐ gael ei hesbonio i bob aelod newydd o'r staff yn ystod prosesau ymsefydlu, gan atgoffa'r staff presennol yn rheolaidd amdani;
- ☐ bwysleisio y dylid cofnodi a rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau staff, pa mor fach bynnag ydynt;
- ☐ annog y staff i roi gwybod am sefyllfaoedd lle osgowyd damwain o drwch blewyn;
- ☐ roi arweiniad clir ar adrodd am ddamweiniau disgyblion;
- ☐ sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r mathau o ddamweiniau y dylid rhoi gwybod amdanynt i HSE o dan reoliadau RIDDOR;
- ☐ gynnwys proses adrodd glir ar gyfer damweiniau y dylid rhoi gwybod amdanynt o dan reoliadau RIDDOR, ac esbonio'r broses i'r staff;
- ☐ sicrhau bod damweiniau'n cael eu monitro gan Bwyllgor Iechyd a Diogelwch, neu os nad oes pwyllgor o'r fath, gan y corff perthnasol;
- ☐ sicrhau bod damweiniau'n cael eu hadolygu a bod unrhyw gamau adferol angenrheidiol yn cael eu cymryd;
- ☐ sicrhau bod pob damwain y dylid rhoi gwybod amdani o dan reoliadau RIDDOR yn cael ei hymchwilio'n briodol.

Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol fod â mecanwaith i fonitro damweiniau mewn ysgolion, yn ddelfrydol drwy Bwyllgor Iechyd a Diogelwch i'r awdurdod lleol cyfan neu fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd unrhyw fforwm ymgynghori/trafod arall.

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon · The Teachers' Union

siaradwch â ni

Ffôn: 029 2054 6080
rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk